ClwydAlyn

# Crynodeb o Gynllun Cydraddoldeb a Chynhwysiant

2025-2028 →

# Am y cynllun

Datblygwyd ein Cynllun Cydraddoldeb a Chynhwysiant gan roi lle canolog i'n preswylwyr a'n cydweithwyr, ac adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i gyflawni i sicrhau bod ClwydAlyn yn sefydliad cynhwysol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn.

**Cafodd ei ddatblygu drwy wneud y canlynol:**

- Gwrando ar bob math o leisiau amrywiol ar draws ClwydAlyn a'n cymunedau
- Gweithio gydag arbenigwyr allanol ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i'n helpu i ddysgu o arfer da
- Deall polisïau a deddfwriaeth gyfredol Llywodraeth Cymru y mae angen i ni weithio gyda nhw i siapio ein cynllun a'n hymrwymiadau


# Meysydd ffocws allweddol

↗

Yn unol â Fframwaith Rheoleiddio Llywodraeth Cymru ar gyfer Tai Cymdeithasol a'n dyletswyddau cydraddoldeb, mae'r cynllun yn amlinellu pum maes gwaith ar ein taith i greu cymuned gynhwysol lle mae pob unigolyn yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

1. **Llywodraethu**
2. **Gwasanaethau**
3. **Mynediad**
4. **Cynnwys**
5. **Diwylliant**

# Meysydd ffocws allweddol



**1 - Llywodraethu –** Byddwn yn gweithredu mewn dull strategol i sicrhau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob agwedd ar ein gwaith.

**2 - Gwasanaethau –** Byddwn yn dal i sicrhau bod ein gwasanaethau yn deg, nad ydynt yn gwahaniaethu, a'u bod yn bodloni anghenion pobl, gan ymateb yn barhaus i newidiadau a heriau wrth iddynt ddatblygu.

**3 - Mynediad -** Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gwybod am y gwasanaethau rydym yn eu darparu, maent yn gallu cael mynediad iddynt, ac mae ganddynt brofiadau da ohonynt.

**4 - Cynnwys -** O ganlyniad i gynnwys pobl mewn ffordd gynhwysol ac ystyrlon, bydd ClwydAlyn yn decach ac yn fwy ymatebol o ran y ffordd mae'n gweithio a'r hyn mae'n ei wneud.

**5 - Diwylliant –** Byddwn yn datblygu ein hymrwymiad i fod yn weithle cynhwysol gyda diwylliant sy'n gwerthfawrogi, yn hybu ac yn croesawu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan weithio gydag ymddiriedaeth, gobaith a charedigrwydd.

# Sut byddwn ni'n mesur llwyddiant?

Rydym eisiau i'n gwaith gael effaith ystyrlon ar ein preswylwyr a'n cydweithwyr. Byddwn yn mesur ac yn monitro ein cynnydd a'n heffaith drwy:

- Adrodd ar y Bwlch Cyflog o ran Rhywedd, Ethnigrwydd, ac Anabledd – i'n helpu i nodi unrhyw fylchau a gweithio i'w cau
- Gwybodaeth am fonitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i breswylwyr a chydweithwyr – i ddeall ein demograffeg yn well a darparu gwasanaethau sy'n bodloni'r anghenion a nodwyd.
- Nifer y Troseddau Casbineb a gaiff eu reportio – i sicrhau bod ein proses reportio yn addas i'r pwrpas; canfod unrhyw feysydd y gall fod angen ymyriadau pellach a sicrhau ein bod yn cefnogi ein pobl yn y ffordd gywir.
- Canran y cydweithwyr ac aelodau'r Bwrdd sydd wedi cwblhau Hyfforddiant Gwrth-hiliaeth
- Hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a gwblhwyd gan y Bwrdd a chydweithwyr
- Asesu effaith yr hyfforddiant a ddarparwyd drwy ystyried a dangos tystiolaeth o sut mae hyfforddiant wedi cael dylanwad cadarnhaol ar ymarfer.

# Adrodd a Gwerthuso

Y pum maes gwaith a amlinellir yw ein themâu a meysydd gwaith cyffredinol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Bydd cynllun cyflawni 12 mis yn cael ei lunio ar ddechrau pob blwyddyn a bydd adroddiad cynnydd blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei roi i'r Pwyllgor Pobl i'w adolygu.

Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda'n Rhwydwaith Cynhwysiant a'n Fforwm Staff i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ein cynnydd a byddwn yn dal i roi cyfleoedd iddynt gyflwyno adborth a dylanwadu ar ein gwaith.

# Beth mae cynhwysiant yn ei olygu i'n preswylwyr a'n cydweithwyr?

↗

**'Cynhwysiant yw bod pawb yn teimlo'n werthfawr ac yn cael eu parchu, ni waeth beth yw eu gwahaniaethau.'**

Aelod o'r Pwyllgor Preswylwyr

**'Cynhwysiant yw'r addewid bod pob calon yn perthyn, mae pob llais yn cael ei glywed, ac mae pob enaid yn bwysig, does neb ar ei ben ei hun – rydyn ni'n fwy disglair gyda'n gilydd'**

- Swyddog Ymyriadau Buan

**'Ystyr cynhwysiant i mi yw bod yn garedig, bod yn chi eich hun a pharchu a chydnabod bod pawb yn wahanol a bod gan bawb gyfraniad gwerthfawr i'w wneud'**

– Pennaeth Datblygiad a Thwf

ClwydAlyn

Crynodeb o Gynllun **Cydraddoldeb a Chynhwysiant ClwydAlyn** 2025 - 2028